COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG
A GYNHALIWYD NOS IAU 14eg o FEDI 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cynghorydd Bedwyr Gwilym

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Erwyn Jones, Annwen Daniels, Mel Goch ap Meirion, Will G. Roberts, Mari Rees, Ronwen D Roberts, Mark Thomas a Glyn Daniels

9962/09/17 YMDDIHEURIADAU:
Cynghorwyr: Rory Francis

9963/09/17 DERBYN DATGANIAD DERBYN SWYDD GAN GYNGHORWYR

PENDERFYNIAD: Arwyddwyd Datganiad Derbyn Swydd Cynghorydd gan y Cynghorwyr Mari Rees a Glyn Daniels o flaen Clerc y Dref.

9964/09/17 CROESAWU CYNGHORYDD NEWYDD

PENDERFYNIAD: Bu i'r Cadeirydd groesawu'r Cynghorwyr newydd

9965/09/17 DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Erwyn Jones	**9946/07/17**	**Cais Cynllunio C17/0839/03/LL**
Cynghorydd Annwen Daniels	**9945/07/17**	**Cais Cynllunio C17/0839/03/LL**
a	**9978/09/17**	**Tir yn Tan y Manod**

9966/09/17 MATERION BRYS

Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Cafwyd cais gan Gwmni Bro i gael caniatâd i roi briff crynodeb o'u gwaith ac amcanion ar gyfer y dyfodol i'r Cyngor Tref.
PENDERFYNIAD: I ymestyn gwahoddiad i gynrychiolydd o Gwmni Bro i roi gwybodaeth i'r Cyngor Tref yng nghyfarfod mis Hydref.

Cafwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â threfniadau i dawelu traffig ger Ysgol Maenofferen yn dilyn cyfarfod safle gyda'r Pennaeth mewn gofal, swyddog Cyngor Gwynedd a chynghorwyr y Cyngor Tref. Bydd twmpathau yn cael eu gosod mewn 5 lleoliad ar y ffordd sydd yn arwain at yr ysgol
PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth a chytuno gyda'r trefniadau.

Bu i'r Dirprwy Gadeirydd, y Cynghorydd Erwyn Jones drefnu taith gerdded noddedig ar ran Cylch Meithrin Blaenau Ffestiniog ym mis Awst. Bu i dri ohonynt gerdded o'r Blaenau i ben y Wyddfa, taith a gymerodd 11 awr iddynt ei gwblhau.
PENDERFYNIAD: Bu i'r Cyngor ddiolch i'r Cynghorydd Erwyn Jones am ei waith caled yn sicrhau dyfodol y Cylch Meithrin dros y blynyddoedd diwethaf.

Cafwyd cais gan gwmni Glendale ar ran Scottish Power i gael caniatâd i docio coed yn y Parc er mwyn diogelu gwifrau trydan.
PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r coed gael eu tocio.

Rhoddwyd gwybodaeth bod y ffordd B4391 rhwng Carreg Lwyd a Chaffi Pont yr Afon Gam ar gau 15fed o Fedi rhwng 7.00 y bore a 7.00 yr hwyr i hwyluso ffilmio hysbyseb.
PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9967/09/17 MATERION YR HEDDLU

Nid oedd aelod o'r heddlu yn bresennol yn y cyfarfod.

Cafwyd gwybodaeth bod digwyddiadau eto ar yr A470 yn y Manod gyda gyrwyr yn gwrthod ildio.

Cafwyd cwynion hefyd bod y gost o barcio yn Diffwys yn uchel ac i hyn amharu ar fusnes siopau'r dref a hefyd creu mwy o broblem parcio ar y stryd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth a gofyn am gael ystadegau ar gyfer digwyddiadau ar yr A470 drwy'r dref. I ofyn i Gyngor Gwynedd edrych eto ar y gost o barcio yn Diffwys.

9968/09/17 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 13eg GORFFENNAF 2017

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Erwyn Jones yn cynnig a'r Cynghorydd Will G Roberts yn eilio

9969/09/17 CYFRIFON I'W TALU AWST

Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	105.88	Rhif Siec.	002471
Broxap Ltd (Biniau i'r Parc)	£	1418.40	Rhif Siec.	002472
Zurich Municipal (Yswiriant)	£	3192.72	Rhif Siec.	002473
Eifion Stores (Compost)	£	24.25	Rhif Siec.	002474
K W Jones (Camerâu cc)	£	2189.00	Rhif Siec.	002475
Cricieth Cleaning Ltd (Amrywiol)	£	1016.20	Rhif Siec.	002477
Cricieth Cleaning Ltd (Ffenestri ayb)	£	172.50	Rhif Siec.	002478
Owain Aeron (Caeau chwarae)	£	830.00	Rhif Siec.	002479
J P Farrington (Garddio)	£	1065.00	Rhif Siec.	002480
BT (Ffon)	£	32.28	Debyd Uniongyrchol	
BT (band eang)		£ 40.80	Debyd Uniongyrchol	
Antur Stiniog (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
Cyngor Gwynedd (Trethi)	£	205.00	Debyd Uniongyrchol	

9970/09/17 CYFRIFON I'W TALU MEDI

North Wales Fencing Co (Y Parc)	£	1946.40	Rhif Siec.	002481
Dŵr Cymru (Y Parc)	£	169.48	Rhif Siec.	002482
Cricieth Cleaning Ltd (Amrywiol)	£	1016.20	Rhif Siec.	002483
Eifion Stores (Diffibriliwr)	£	112.27	Rhif Siec.	002474
Eifion Stores (Nwyddau)	£	9.00	Rhif Siec.	002475
Cyngor Gwynedd (Etholiadau)	£	583.00	Rhif Siec.	002476
Arian Parod	£	50.00	Rhif Siec.	002487
Viking Direct	£	367.80	Rhif Siec.	002488
Cyngor Gwynedd (Rhent tir)	£	1.00	Rhif Siec.	002493

Owain Aeron (Torri gwair)	£	1230.00	Rhif Siec.	002494
Antur Stiniog (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
BT (Ffôn)	£	32.62	Debyd Uniongyrchol	
BT (Band eang)	£	40.80	Debyd Uniongyrchol	
Cyngor Gwynedd (Trethi)	£	205.00	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod a diolchwyd i Chris Fosbury, Eifion Stores am roi ei lafur am ddim i osod y diffibriliwr.

9971/09/17 ARIAN I MEWN

Cyngor Gwynedd (Praesept) £ 75000.00

9972/09/17 CEISIADAU CYNLLUNIO

DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Erwyn Jones **Cais Rhif C17/0839/03/LL**
Cynghorydd Annwen Daniels **Cais Rhif C17/0839/03/LL**

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

1. Cais Cynllunio Rhif C17/0615/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs J T Jones
Cyn HSBC
Heol yr Eglwys
Blaenau Ffestiniog
Cais ar gyfer newid defnydd Banc a swyddfeydd i dy bwyta a thŷ preswyl 7 ystafell wely ynghyd a darparu ffenestri dormer yn y to a newidiadau allanol i'r agoriadau
Dim Gwrthwynebiad

2. Cais Cynllunio Rhif C17/0667/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs Beards
Bryn Tirion
91 Ffordd Manod
Blaenau Ffestiniog
Estyniad llawr cyntaf
Dim Gwrthwynebiad

3. Cais Cynllunio Rhif C17/0718/03/LL
Ymgeisydd D & C Jones Co. Ltd
Old Station Yard
Llwynygell
Blaenau Ffestiniog
Cais i ddymchwel adeilad swyddfa bresennol a chodi adeilad swyddfa / gweithdy o'r newydd
Dim Gwrthwynebiad

4. Cais Cynllunio Rhif C17/0687/03/LL
Ymgeisydd Welsh Ambulance Service NHS Trust
Gorsaf Ambiwlans
Blaenau Ffestiniog
Cais i greu 2 lecyn parcio ychwanegol
Dim Gwrthwynebiad

5. Cais Cynllunio Rhif C17/0700/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs J O'Mahoney
1 Bryn Ffynnon Newydd
Ffordd Manod
Blaenau Ffestiniog
Dymchwel estyniad cefn a chodi estyniad yn ei le
Dim Gwrthwynebiad

6. Cais Cynllunio Rhif C17/0786/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer
Teiliau Mawr
Cwm Teigl
Blaenau Ffestiniog
Addasu adeiladau allanol yn uned gwyliau

7. Cais Cynllunio Rhif C17/0781/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer
Teiliau Mawr
Cwm Teigl
Blaenau Ffestiniog
Trosi adeiladau allanol yn uned gwyliau

8. Cais Cynllunio Rhif C17/0839/03/LL
Ymgeisydd Mr Huw Jones
Bronant
Heol Dorfil
Blaenau Ffestiniog
Cais ar gyfer newid defnydd rhan o weithdy presennol i dŷ preswyl

9. Cais Cynllunio Rhif C17/0833/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer
Teiliau Mawr
Cwm Teigl
Blaenau Ffestiniog
Addasiad i dŷ annedd yn cynnwys dymchwel porth blaen a chodi estyniad newydd, trosi'r Stabl ynghlwm i ffurfio rhan o'r tŷ ac ail agor ac amnewid ffenestri

10. Cais Cynllunio Rhif C17/0834/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer
Teiliau Mawr
Cwm Teigl
Blaenau Ffestiniog
Addasiad i dŷ annedd yn cynnwys dymchwel porth blaen a chodi estyniad newydd, trosi'r stabl ynghlwm i ffurfio rhan o'r tŷ ac ail agor ac amnewid ffenestri

11. Cais Cynllunio Rhif C17/0852/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer
Teiliau Mawr
Cwm Teigl
Blaenau Ffestiniog
Trosi adeiladau allanol yn uned gwyliau

12. Cais Cynllunio Rhif C17/0853/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer
Teiliau Mawr
Cwm Teigl
Blaenau Ffestiniog
Trosi adeiladau allanol yn uned gwyliau

13. Cais Cynllunio Rhif C17/0872/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer
Teiliau Mawr
Cwm Teigl
Blaenau Ffestiniog
Trosi adeiladau allanol yn uned gwyliau

14. Cais Cynllunio Rhif C17/0873/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer
Teiliau Mawr
Cwm Teigl
Blaenau Ffestiniog
Trosi adeiladau allanol yn uned gwyliau

15. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/131D
Ymgeisydd Mr Rh Williams
Cyn Depo Cyngor Gwynedd
Ffestiniog
Dymchwel adeilad presennol ac adeiladu 3 tŷ fforddiadwy

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C17/0667/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs Beards
Bryn Tirion
91 Ffordd Manod
Blaenau Ffestiniog
Estyniad llawr cyntaf
Caniatáu

2. Cais Cynllunio Rhif C17/0468/03/LL
Ymgeisydd Cardtronics Ltd
Co-op
Blaenau Ffestiniog
Cais i gadw peiriant ATM
Caniatáu

3. Cais Cynllunio Rhif C17/0468/03/LL
Ymgeisydd Cardtronics Ltd
Co-op
Blaenau Ffestiniog
Cais i gadw peiriant ATM
Caniatáu

4. Cais Cynllunio Rhif C17/0616/03/LL
Ymgeisydd Mr M Jones
Fferm y Ffynnon
Manod
Blaenau Ffestiniog
Cais i ddymchwel estyniadau unllawr presennol a chodi estyniadau deulawr ar ochr a chefn yr eiddo presennol
Gwrthod

5. Cais Cynllunio Rhif C17/0687/03/LL
Ymgeisydd Welsh Ambulance Service NHS Trust
Gorsaf Ambiwlans
Blaenau Ffestiniog
Cais i greu 2 lecyn parcio ychwanegol
Caniatáu

6. Cais Cynllunio Rhif C17/0700/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs J O'Mahoney
1 Bryn Ffynnon Newydd
Ffordd Manod
Blaenau Ffestiniog
Dymchwel estyniad cefn a chodi estyniad yn ei le
Caniatáu

PENDERFYNIAD: Fel yr uchod a derbyn y wybodaeth ynglŷn â phenderfyniad yr Awdurdodau Cynllunio. I drafod y ceisiadau sy'n weddill ymhellach mewn cyfarfod Cynllunio i'w gynnal yn y Siambr ddydd Iau, 21 Medi.

9973/09/17 PWYLLGOR MWYNDERAU

Er na chafwyd Pwyllgor ffurfiol ar 20fed o Orffennaf oherwydd diffyg cworwm, derbyn argymhellion wedi iddynt gael eu trafod drwy e-bost.

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 20fed GORFFENNAF 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Mel Goch ap Meirion
Erwyn Jones
Wil Guest Roberts

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Annwen Daniels
Bedwyr Gwilym
Rory Francis
Ronwen D Roberts

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

1. **Adroddiad Caeau Chwarae**
Bu i'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion holi pam nad oes arwydd Dim Cŵn ar gae Bryn Coed.
Argymell: I dderbyn yr adroddiadau ac i drafod prynu arwyddion Dim Cŵn gyda logo'r Cyngor Tref arnynt ym mis Medi.

2. **Y Parc**
Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r diffyg refeniw sydd wedi ei dderbyn er i'r cwrs golff gwirion gael ei osod.
Argymell: I'w drafod ym mis Medi wedi i gynghorwyr edrych eto ar ei leoliad a beth all i'w wneud i wella'r defnydd o'r cwrs.

3. **Caffi'r Parc**
Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phroblemau gyda'r caffi ddim ar agor yn rheolaidd e.e. dim toiledau ar gael, dim tocynnau cwrs golff gwirion yn cael eu gwerthu a dim codi sbwriel rheolaidd.
Argymell: I geisio cael cyfarfod gyda Carys Jones nos Fawrth 25ain o Orffennaf am 7.00 yn y Siambr i geisio datrys rhai o'r problemau.

4. **Cae Baltic**
Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r pris o £6308.00 am ffens newydd i'r cae chwarae a £10,384.00 am ffens i weddill y cae gan North Wales Fencing.
Argymell: Y Cynghorydd Will G Roberts i holi os bydd gosod rheilen ar ben y ffens yn ei wneud yn fwy diogel gan nad oes unrhyw nam ar y ffens ond nid yw o fewn gofynion ROSPA erbyn hyn.

5. Tir ger Cae Baltic
Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig i'r Cyngor Tref brynu llecyn o dir ger y cae chwarae. Mae'r Cyngor wedi dangos diddordeb yn y tir yma yn y gorffennol.
Argymell: Mae'r tir yma wedi ei warchod ar gyfer hamdden ac mae plant lleol yn chwarae arno yn rheolaidd. I gadarnhau i Gyngor Gwynedd bod y Cyngor Tref yn barod i'w brynu er mwyn ei warchod fel lle chwarae i blant lleol.

6. Talu biliau
Caniatâd i dalu biliau Eifion Stores, Broxap, Zurich a Catrin Williams
Argymell: Rhoddwyd caniatâd i dalu'r biliau

7. Ceisiadau Cynllunio
Trafod ceisiadau cynllunio sydd i law

a) Cais Cynllunio Rhif C17/0615/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs J T Jones
Cyn HSBC
Heol yr Eglwys
Blaenau Ffestiniog
Cais ar gyfer newid defnydd Banc a swyddfeydd i dy bwyta a thŷ preswyl 7 ystafell wely ynghyd a darparu ffenestri dormer yn y to a newidiadau allanol i'r agoriadau
Dim Gwrthwynebiad ond cynigir sylwadau bod gwall ar bwynt 15 gan fydd gwastraff masnachol yno oherwydd iddo gael ei ddefnyddio fel tŷ bwyty.

b) Cais Cynllunio Rhif C17/0667/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs Beards
Bryn Tirion
91 Ffordd Manod
Blaenau Ffestiniog
Estyniad llawr cyntaf
Dim Gwrthwynebiad

8. Toiledau cyhoeddus Diffwys

Bu i'r Cyngor derbyn llythyr gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau bod y trefniadau ar gyfer cyfrannu tuag at gostau rhedeg y toiledau yn aros yr un fath ar gyfer 2018/2019. Gofynnir hefyd i'r Cyngor gadarnhau ei fwriad o redeg y toiledau cyhoeddus os bydd Cyngor Gwynedd yn penderfynu eu cau.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth parthed costau i'r flwyddyn 2017/2018 ac i gadarnhau bydd y Cyngor Tref yn fodlon cymryd y toiledau cyhoeddus drosodd os bydd Cyngor Gwynedd yn penderfynu eu cau.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion

9974/09/17 PWYLLGOR NADOLIG

Oherwydd anawsterau, nid oes cyfarfod o'r pwyllgor uchod wedi ei gynnal.

PENDERFYNIAD: I drafod materion perthnasol o fewn Pwyllgor Mwynderau nos Iau 21 Medi 2017 a hefyd o fewn Pwyllgor Adnoddau nos Iau 28 Medi 2017.

9975/09/17 PWYLLGOR ADNODDAU

Trefnu dyddiad ar gyfer Pwyllgor Adnoddau i drafod y cyfrifon

PENDERFYNIAD: I gynnal Pwyllgor Adnoddau nos Iau 28 Medi yn y Siambr am 7.00 o'r gloch.

9976/09/17 GOLEUADAU NADOLIG

Trafod pris ar gyfer goleuadau ychwanegol yn Sgwâr Diffwys a rhai i'r Parc

PENDERFYNIAD: I drafod y mater ymhellach yn y Pwyllgor Adnoddau nos Iau 28 Medi.

9977/09/17 YSGOLORIAETH PATAGONIA 2018

Mae trefniadau mewn llaw ar gyfer cystadleuaeth Ysgoloriaeth Patagonia'r Cyngor Tref ar gyfer y flwyddyn 2018/9.

PENDERFYNIAD: Y Cynghorydd Erwyn Jones i greu tudalen Facebook ar gyfer y Cyngor Tref er mwyn hybu'r gystadleuaeth. I holi Cyngor Gwynedd ynglŷn â chael arwyddion brown yn dweud ein bod wedi trefeillio a Rawson ym Mhatagonia ar yr A470, Bwlch y Gorddinan a hefyd ar yr A496 ger Allt Goch.

9978/09/17 TIR YN TAN Y MANOD

DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Annwen Daniels

Ystyried prynu tir yn Tan y Manod.

Mae gwerthwyr y tir hwn yn awyddus i'r Cyngor Tref gael cyfle i brynu'r tir i'r gymuned, er mwyn hwyluso hyn maent wedi ymestyn dyddiad cau'r tendr i 15fed o Fedi.

PENDERFYNIAD: I gynnig pris o £1 y plot a'u defnyddio os yn llwyddiannus ar gyfer tir pori a hwyrach rhandiroedd.

Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960
Yn unol â Deddf Mynediad i Gyfarfodydd Cyrff Cyhoeddus - Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (1985) Atodlen 12A, rhannau 1.1 a 4.14, mae'r cyhoedd a'r wasg felly wedi'u heithrio o'r rhan hon o'r cyfarfod.

FE AETH Y CYFARFOD YN GAEEDIG I'R CYHOEDD A'R WASG I DRAFOD EITEMAU RHIF 9979/09/17

9979/09/17 CAIS AM GYFETHOLIAD

PENDERFYNIAD: Cyfetholwyd Elin Roberts i gynrychioli gward Diffwys a Maenofferen.

AGORWYD Y CYFARFOD I'R CYHOEDD A'R WASG

9980/09/17 IECHYD

Cafwyd gwybodaeth bod Pwyllgor Craffu Gofal, Cyngor Gwynedd am edrych i mewn i'r angen am wlâu ac yn y blaen yn yr adeilad iechyd newydd a hefyd edrych ar yr amseroedd bysus rhwng yr ardal ac Ysbyty Alltwen yn Nhremadog. Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn edrych eto ar yr effaith cafodd cau'r Ysbyty Coffa ar yr ardal.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9981/09/17 PARTNERIAETH Y PARC

Ni chafwyd gwybodaeth

9982/09/17 CAEAU CHWARAE

Trafod prynu arwyddion Dim Cŵn gyda logo'r Cyngor Tref ar gyfer y caeau chwarae

PENDERFYNIAD: Cael pris ar gyfer arwyddion a'u trafod ym Mhwyllgor Mwynderau nos Iau 21ain o Fedi yn y Siambr am 7.00 o'r gloch.

9983/09/17 Y PARC

Rhoddwyd diweddariad ar y gwaith angenrheidiol yn y Parc. Bydd y cyrbiau a'r tarmac yn cael eu hatgyweirio yn ystod yr wythnosau nesaf sy'n golygu y bydd yr holl ddifrod wedi cael ei atgyweirio.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9984/09/17 CAE BRYN COED

Cafwyd gwybodaeth ynglŷn â pherchnogaeth Cae Bryn Coed. Er i Gwelliannau Ffestiniog ddal prydles hir dymor gan Gyngor Gwynedd ar y tir yma, mae newydd ddod i'r golwg i Gyngor Gwynedd drosglwyddo perchnogaeth y tir i Gartrefi Cymunedol Gwynedd yn 2010. Mae'r wybodaeth yma yn pery cryn bryder i Welliannau Ffestiniog ac i'r Cyngor Tref. Mae'r offer sydd ar y cae wedi ei roi yn rhodd i'r Cyngor Tref bellach er mwyn sicrhau yswiriant a chynnal a chadw'r offer.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac aros am wybodaeth bellach o'r sefyllfa.

9985/09/17 CYNGOR GWYNEDD
Rhaglen Waith - Medi
Llwybr 78 Ffestiniog Clirio coed a gordyfiant

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9986/09/17 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL
Ni chafwyd adioddiad.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9987/09/17 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD
Cafwyd gwybodaeth i'r Cynllun Datblygu ar y cyd Gwynedd a Môn gael ei gymeradwyo.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9988/09/17 CLERKS AND COUNCILS DIRECT
Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9989/09/17 THE CLERK
Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9990/09/17 UNLLAIS CYMRU
Cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau, dydd Mawrth 26ain o Fedi am 7.00 o'r gloch

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 8.59yh

CADEIRYDD

CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF
NOS IAU 12fed HYDREF 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 12fed HYDREF 2017
AR Y 5ed HYDREF 2017